12 Diwrnod y Nadolig 2022 - Enillydd rhif 11

# Clwb Bowliau Pen-y-graig

Daeth Clwb Bowls Pen-y-graig yn ôl at ei gilydd 10 mlynedd yn ôl, deuddeg blynedd ar ôl i'r tîm blaenorol ddiddymu yn 2000. Fe wnaethon nhw ailffurfio â thîm oedd yn cynnwys bowlwyr newydd yn bennaf. Mae hyfforddwyr wedi gweithio'n galed er mwyn cynorthwyo'r chwaraewyr newydd i ddatblygu ac mae eu gwaith caled wedi talu ar ei ganfed. Y tymor yma, cafodd y clwb ei ddyrchafu i Adran 1 Cynghrair Caerdydd wedi iddyn nhw ennill Adran 2. Enillon nhw hefyd Gynghrair Adran 2 Morgannwg Ganol a Chynghrair Prynhawn Llun. Mewn cyfnod byr, maen nhw hefyd wedi cynhyrchu 4 Chwaraewr Rhyngwladol Cymru.

Eleni, mae'r clwb wedi gweithio'n galed yn gwerthu'u hunain i'w cymuned leol a darparu sesiynau mewn ysgolion. O ganlyniad i hyn, mae eu haelodaeth wedi parhau i dyfu. Mae'r clwb wedi bod yn falch o gefnogi argyfwng Wcráin, rhoddi dillad a blancedi, ac ati, gan ddatblygu cyswllt agos â'u siop elusen leol.

